# Cyngor y Gweithlu Addysg

# Rheolau Cofrestru 2024

Mai 2024

# Cyflwyniad

## Mynegai cyfeirio a darpariaethau trosiannol

1- (1) Dan Reoliadau 18 a 19 *Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015,* Rheoliadau 18A a 19A *Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau)(Cymru)(Diwygiad) 2016,* Rheoliadau 4, 6 a 7 o O*rchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016,* Rheoliadau 4, 5, 7 ac 8 *Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol)(Cymru) 2023,* a Rheoliadau 3 a 4 *Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol)(Cymru) 2024,* rhaid i bob:

- athro cymwysedig sy'n cyflawni gwaith penodedig athro mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru;
- gweithiwr cymorth dysgu ysgol sy'n cefnogi'r gwasanaethau a nodir dan Reoliad 18A (2), fel y'i diwygiwyd, o'r Rheoliadau mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru;
- athro ysgol annibynnol sy'n darparu (neu'n dymuno darparu) gwasanaethau athrawon ysgol annibynnol mewn ysgol annibynnol yng Nghymru neu ar ei chyfer;
- gweithiwr cymorth dysgu ysgol annibynnol sy'n cynorthwyo (neu'n dymuno cynorthwyo) i ddarparu gwasanaethau athrawon ysgol annibynnol mewn ysgol annibynnol yng Nghymru neu ar ei chyfer;
- person sy'n darparu addysg mewn neu ar gyfer sefydliad addysg bellach yng Nghymru (mae angen cymhwyster gorfodol neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster) (yn amodol ar yr eithriadau sydd wedi'u nodi dan Reoliad 19); rhaid i berson nad oes ganddynt un o'r cymwysterau sydd wedi'u rhestru yn yr atodlen geisio ennill cymhwyster priodol cyn pen tair blynedd (amser llawn) neu bum mlynedd (rhan-amser). Os na fydd person yn ennill y cymhwyster gofynnol cyn pen yr amserlen hon, ni fydd yn gymwys i gofrestru â CGA fel athro AB mwyach;
- penaethiaid neu uwch arweinwyr (sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli addysgu a dysgu) mewn addysg bellach;
- gweithiwr cymorth dysgu addysg bellach sy'n darparu'r gwasanaethau sy'n cael eu nodi yn adran 16(2) Deddf Addysg (Cymru) 2014 mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru neu ar ei gyfer;
- athro sefydliad arbennig annibynnol ôl-16 sy'n darparu (neu'n dymuno darparu) gwasanaethau athrawon sefydliad arbennig annibynnol ôl-16 mewn sefydliad arbennig annibynnol ôl-16 yng Nghymru neu ar ei gyfer;

- gweithiwr cymorth dysgu sefydliad arbennig annibynnol ôl-16 sy’n cynorthwyo (neu’n dymuno cynorthwyo) i ddarparu gwasanaethau athrawon sefydliad arbennig annibynnol ôl-16 mewn sefydliad arbennig annibynnol ôl-16 yng Nghymru neu ar ei gyfer;

- ymarferydd dysgu seiliedig ar waith sy’n darparu gwasanaethau ar gyfer neu ar ran corff dysgu seiliedig ar waith (heblaw fel gwirfoddolwr ac yn amodol ar yr eithriad a nodir dan Reoliad 7(2));

- person sy’n darparu addysg bellach a hyfforddiant i oedolion ar gyfer darparwr addysg oedolion yn y gymuned (mae angen cymhwyster gorfodol neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster); rhaid i berson nad oes ganddynt un o’r cymwysterau sydd wedi’u rhestru yn yr atodlen geisio ennill cymhwyster priodol cyn pen tair blynedd (amser llawn) neu bum mlynedd (rhan-amser). Os na fydd person yn ennill y cymhwyster gofynnol cyn pen yr amserlen hon, ni fydd yn gymwys i gofrestru â CGA fel Ymarferydd Addysg Oedolion mwyach;

- gweithiwr ieuenctid (mae angen cymhwyster gorfodol neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster; bydd y rhai sy’n gweithio tuag at gymhwyster gorfodol yn cael eu cofrestru dros dro) sy’n darparu gwasanaethau datblygu ieuenctid ar gyfer neu ar ran cyflogwr perthnasol (heblaw fel gwirfoddolwr ac yn amodol ar yr eithriad a nodir dan Reoliad 4(2)); a

- gweithiwr cymorth ieuenctid (mae angen cymhwyster gorfodol neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster; bydd y rhai sy’n gweithio tuag at gymhwyster gorfodol yn cael eu cofrestru dros dro) sy’n darparu gwasanaethau datblygu ieuenctid ar gyfer neu ar ran cyflogwr perthnasol (heblaw fel gwirfoddolwr ac yn amodol ar yr eithriad a nodir dan Reoliad 6(2)),

fod wedi’u cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

(2) Mae CGA, wrth arfer y pwerau a roddir iddo gan:

(a) *Ddeddf Addysg (Cymru) 2014*, fel y’i diwygiwyd; a

(b) *Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015,* fel y’i diwygiwyd*,*

drwy hyn yn gwneud y rheolau canlynol, y cyfeirir atynt fel *Rheolau Cofrestru 2024*, a gafodd eu cymeradwyo ac a ddaeth i rym ar 10 Mai 2024.

(3) Drwy hyn, caiff *Rheolau Cofrestru 2023* eu diddymu, ond byddant yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer cyfarfodydd addasrwydd sydd wedi’u cwblhau’n rhannol ar 10 Mai 2024, a lle anfonwyd y llythyr a gyhoeddwyd gan CGA yn unol â Rheol 9 at yr ymgeisydd cyn 10 Mai 2024.

(4) Heblaw fel y caiff ei amodi ym mharagraff (3), *Rheolau Cofrestru 2024* fydd yn berthnasol.

## Dehongli

2-(1) Yn y Rheolau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu'n wahanol:

ystyr 'y Ddeddf' yw *Deddf Addysg (Cymru) 2014,* ac unrhyw ddiwygiadau dilynol a wneir iddi;

ystyr 'asiant' yw un person (yr asiant) sy'n gwneud trefniadau i berson cofrestredig (y gweithiwr) ddarparu gwasanaethau perthnasol ar gais, neu â chaniatâd, cyflogwr perthnasol (boed hynny drwy gontract ai peidio). Gallai asiantaeth gyflenwi breifat gael ei chynnwys yn nodweddiadol o dan gategori asiant;

ystyr 'yr ymgeisydd' yw person sydd wedi gwneud cais i gael eu cofrestru gyda CGA;

mae i 'corff priodol' yr un ystyr ag yn adran 17(2)(d) y Ddeddf;

ystyr 'categorïau cofrestru' yw 'athro ysgol', 'gweithiwr cymorth dysgu ysgol', 'athro addysg bellach', 'gweithiwr cymorth dysgu addysg bellach', fel y'u diffinnir gan Atodlen 2 i'r Ddeddf, 'gweithiwr ieuenctid', 'gweithiwr cymorth ieuenctid' ac 'ymarferydd dysgu seiliedig ar waith', fel y'u diffinnir gan Ran 2 Gorchymyn 2016, 'athro ysgol annibynnol', 'athro sefydliad arbennig annibynnol ôl-16', 'gweithiwr cymorth dysgu ysgol annibynnol' a 'gweithiwr cymorth dysgu sefydliad arbennig annibynnol ôl-16', fel y'u diffinnir gan Ran 6 Gorchymyn 2023, ac 'ymarferydd addysg oedolion' a 'phennaeth neu uwch arweinydd addysg bellach' fel y'u diffinnir gan baragraff chwech Gorchymyn 2024;

ystyr 'y Pwyllgor' yw Pwyllgor Addasrwydd;

ystyr 'trosedd' yw:

(a) collfarn;

(b) rhybuddiad (rhybudd ffurfiol am ymddygiad yn y dyfodol a roddir gan uwch swyddog heddlu, fel arfer mewn gorsaf heddlu, ar ôl i berson gyflawni trosedd. Caiff ei ddefnyddio fel opsiwn amgen i gyhuddo ac erlyn posibl);

(c) rhybudd (person ifanc y rhoddir ail rybudd ffurfiol a 'therfynol' iddynt am ymddygiad yn y dyfodol);

(d) cerydd (mae cerydd wedi disodli'r rhybuddiad ar gyfer pobl ifanc o dan 18 oed);

ystyr 'DfE' yw'r Adran Addysg;

ystyr 'CGA' yw Cyngor y Gweithlu Addysg;

ystyr 'datganiad' yw lle bydd ymgeisydd yn gwneud datganiad yn nogfen CGA *Cais i Gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA)*, neu mewn man arall;

ystyr ‘gorchymyn disgyblu’ mewn perthynas â pherson cofrestredig yng Nghymru yw ‘cerydd’, ‘gorchymyn cofrestru amodol’, ‘gorchymyn atal (gyda neu heb amodau)’ neu ‘orchymyn gwahardd’ o fewn ystyr adran 27 y Ddeddf;

ystyr ‘y swyddog a awdurdodir yn briodol’ yw’r person a benodir gan Brif Weithredwr Cyngor y Gweithlu Addysg i weithredu ar ei r(h)an;

ystyr ‘methiant i ddatgan’ yw lle bydd ymgeisydd yn methu gwneud datganiad yn nogfen CGA *Cais i Gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA)*, neu mewn man arall pan roedd yn briodol gwneud hynny;

ystyr ‘Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer’ yw Pwyllgor sydd wedi’i sefydlu dan Reoliad 22 o’r Rheoliadau;

ystyr ‘cyfnod sefydlu’ yw cyfnod a dreulir neu y mae’n ofynnol i’w dreulio yn unol â Rheoliadau a wnaed yng Nghymru a Lloegr dan:

(a) adran 19 Deddf 1998;

(b) adran 135A Deddf 2002; neu

(c) adran 17 Deddf 2014;

ystyr ‘DBS’ yw’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;

ystyr ‘aelod lleyg’ yw aelod o’r Pwyllgor nad yw:

(a) yn berson cofrestredig;

(b) yn cael eu cyflogi, neu eu cyfarwyddo, i ddarparu gwasanaethau perthnasol yn ystod y cyfnod o bum mlynedd sy’n dod i ben ar y dyddiad y penodwyd y person hwnnw i’r Pwyllgor;

(c) wedi’u gwahardd rhag ymgymryd â gweithgarwch a reoleiddir yn ymwneud â phlant (o fewn ystyr adran 3(2) *Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(1)*;

(d) yn destun gorchymyn disgyblu a wnaed dan y Ddeddf ac yn rhinwedd y gorchymyn hwnnw mae’r person yn anghymwys i gofrestru; neu

(e) wedi’u diarddel rhag gweithio mewn swydd sy’n cyfateb i gategori cofrestru;

ystyr ‘aelod o’r cyhoedd’ yw person nad ydynt yn gyflogwr o fewn ystyr y Rheolau hyn, neu berson nad ydynt wedi’u cofrestru neu nad ydynt yn gymwys i gofrestru;

ystyr ‘mis’ yw mis calendr;

ystyr ‘swyddog CGA’ yw cyflogai CGA, neu unrhyw berson a awdurdodir yn briodol i weithredu ar ran y Prif Swyddog Gweithredol;

ystyr ‘Gorchymyn 2016’ yw *Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016;*

ystyr ‘Gorchymyn 2023’ yw *Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023;*

ystyr ‘Gorchymyn 2024’ yw *Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2024;*

ystyr ‘gwybodaeth berthnasol arall’ yw unrhyw wybodaeth arall sydd naill ai’n cael ei cheisio gan CGA ac/neu a roddir i CGA y gellid ystyried ei bod yn berthnasol i asesiad addasrwydd;

ystyr ‘cofrestru dros dro’ yw’r statws cofrestru y mae person yn gymwys amdano, os yw’r person yn bodloni un neu fwy o'r amodau canlynol, am y tro, sef:

(a) bod y person yn athro ysgol cymwysedig ond heb gwblhau cyfnod sefydlu;

(b) bod y person wedi’u cofrestru gan CGA yng nghategori cofrestru athro ysgol yn unol â *Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol (Cofrestru Athrawon Dros Dro o Wladwriaethau Ewropeaidd Perthnasol) (Cymru a Lloegr) 2009*;

(c) bod y person yn gweithio tuag at ennill un o’r cymwysterau a nodir fel cymwysterau gweithiwr ieuenctid, fel y nodir yn Rhan 1 Atodlen 1 Gorchymyn 2023;

(d) bod y person yn gweithio tuag at gael un o’r cymwysterau a nodir fel cymwysterau gweithiwr cymorth ieuenctid fel y nodir yn Rhan 1 Atodlen 1 Gorchymyn 2023;

ystyr ‘atgyfeiriad addasrwydd’ yw gwybodaeth a geir gan CGA, pan wneir cais, a allai effeithio ar addasrwydd ymgeisydd i fod yn berson cofrestredig. Gallai hyn gynnwys:

(a) gwybodaeth a ddarperir gan yr ymgeisydd mewn datganiad; a/neu

(b) ‘fethiant i ddatgan’ gan ymgeisydd; a/neu

(c) wybodaeth berthnasol arall o unrhyw ffynhonnell arall;

ystyr ‘y Gofrestr’ yw’r Gofrestr Ymarferwyr Addysg y mae’n ofynnol i CGA ei sefydlu a’i chynnal yn unol ag adran 9(1) y Ddeddf, fel y nodir yn *Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015*, fel y'i diwygiwyd,

ac ystyr ‘cofrestru’ yw cofrestru llawn neu dros dro ar y Gofrestr mewn un categori cofrestru neu fwy. Mae cofrestru ‘dros dro’ yn berthnasol i gategorïau athro ysgol, gweithiwr ieuenctid a gweithiwr cymorth ieuenctid;

ystyr ‘person cofrestredig’ yw:

(a) person sydd wedi'u cofrestru am y tro dan Adran 9 o'r Ddeddf, gan gynnwys y rheiny sydd wedi'u cofrestru dros dro;

(b) person a oedd wedi'u cofrestru ar adeg unrhyw ymddygiad neu drosedd honedig (boed dan adran 9 y Ddeddf neu dan adran 3 Deddf 1998); neu

(c) berson sydd wedi gwneud cais i gael eu cofrestru;

ystyr 'aelod cofrestredig' yw aelod o'r Pwyllgor sydd:

(a) yn berson sydd wedi'u cofrestru mewn o leiaf un o'r categorïau cofrestru; ac

(b) wedi'u cyflogi, neu eu defnyddio mewn modd arall heblaw drwy gontract cyflogaeth, yn un o'r swyddi a ddisgrifir yn y categorïau cofrestru ar ddyddiad penodi'r person cofrestredig hwnnw i'r Pwyllgor,

a bydd aelod cofrestredig sy'n rhoi'r gorau i fod yn berson cofrestredig neu'n rhoi'r gorau i gael eu cyflogi neu eu defnyddio yn un o'r swyddi a ddisgrifir yn y categorïau cofrestru yn rhoi'r gorau i fod yn aelod cofrestredig;

ystyr 'cyflogwr perthnasol' yw person sy'n cyflogi neu'n defnyddio mewn modd arall bersonau cofrestredig i ddarparu gwasanaethau perthnasol yng Nghymru;

a rhaid dehongli 'cyflogwr presennol' ac 'wedi'u cyflogi' yn unol â hynny;

ystyr 'addas' yw bod CGA yn fodlon bod yr ymgeisydd yn bodloni'r safonau a ddisgwylir gan berson cofrestredig yn y categori neu gategorïau cofrestru perthnasol;

ystyr 'Pwyllgor Addasrwydd' yw Pwyllgor sy'n cael ei gynnull i benderfynu a yw ymgeisydd yn addas i fod yn berson cofrestredig yn y categori neu gategorïau cofrestru perthnasol ai peidio;

ystyr 'wythnos' yw wythnos galendr.

(2) Yn y Rheolau hyn, oni nodir y bwriad i'r gwrthwyneb:

(a) mae geiriau yn yr unigol yn cynnwys y lluosog, ac mae geiriau yn y lluosog yn cynnwys yr unigol;

(b) mae is-baragraffau a pharagraffau wedi'u rhifo yn cyfeirio at y Rheol y maent yn ymddangos ynddi;

(c) mae rheolau wedi'u rhifo yn cyfeirio at reolau'r Rheolau hyn.

## Cyhoeddi'r Rheolau

3- (1) Bydd y Rheolau hyn:

(a) ar gael yn rhad ac am ddim ar gais i unrhyw berson cofrestredig neu berson sydd wedi gwneud cais i gofrestru;

(b) yn cael eu cyhoeddi ar wefan CGA;

(c) yn cael eu hadolygu'n barhaus a'u diweddaru, fel y bo'n briodol.

## Cais i gofrestru ar y Gofrestr

4-(1) Rhaid i gais i gofrestru ar y Gofrestr gael ei wneud ar y ffurf ac yn y modd a benodir gan CGA a rhaid cynnwys y ffi gofrestru gywir gydag ef.

Bydd y cais:

(a) yn cael ei wneud yn ysgrifenedig; ac

(b) yn cael ei wneud ar ffurflen gais GCA; ac

(c) yn cael ei gyflwyno gyda'r datganiad wedi'i gwblhau'n llawn a chan ddarparu dogfennau ategol, yn ôl yr angen; ac

(d) yn cael ei lofnodi gan yr ymgeisydd neu, os caiff ei gyflwyno ar-lein, â llofnod electronig.

(2) Bydd cais i gofrestru yn cynnwys y manylion canlynol:

(a) Y categori neu'r categorïau cofrestru y gwneir cais amdano / amdanynt;

(b) Rhif cyfeirnod athro (DfE) yr ymgeisydd, os oes un ganddynt;

(c) Enw llawn yr ymgeisydd ac unrhyw enw(au) y'i gelwid gynt;

(d) Dyddiad geni'r ymgeisydd;

(e) Rhywedd yr ymgeisydd;

(f) Cyfeiriad cartref neu gyfeiriad cyswllt a rhif ffôn yr ymgeisydd;

(g) Rhif Yswiriant Gwladol yr ymgeisydd;

(h) Datganiad yn ffurflen *Cais i Gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA)* CGA, neu mewn man arall, sy'n cynnwys:

(i) manylion am unrhyw rybuddiadau neu gollfarnau, nad ydynt wedi'u "gwarchod" fel y'i diffinnir gan *Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygiad 1975) (Cymru a Lloegr) 2013* a gyhoeddwyd gan lys barn yn y DU neu unrhyw wlad arall;

(ii) manylion am unrhyw ymchwiliad neu ymchwiliadau sydd yn yr arfaeth a allai arwain at gollfarn neu rybuddiad yn y DU neu unrhyw wlad arall;

(iii) manylion am unrhyw gamau disgyblu sydd wedi'u cymryd (neu sydd yn yr arfaeth) yn erbyn yr ymgeisydd gan gyflogwr neu unrhyw gorff rheoleiddio proffesiynol arall neu awdurdod tebyg;

(i) Unrhyw wybodaeth debyg arall a allai fod yn ofynnol gan CGA.

(3) Gallai CGA ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gais i gofrestru ddod â'r cyfryw ddogfennau y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

(4) Dylid hysbysu CGA yn ysgrifenedig o unrhyw newid yn y manylion a nodir yn y cais i gofrestru.

(5) Nid yw cofrestriad â Chyngor Addysg Cyffredinol arall yn trosglwyddo i Gymru fel mater o drefn. Rhaid gwneud cais newydd i gofrestru.

## Hawl i gofrestru

5- (1) Bydd gan berson hawl i gofrestru ar y Gofrestr ar yr amod eu bod:

(a) yn bodloni unrhyw ofynion cymhwyso[1] ar gyfer y categori neu'r categorïau cofrestru;

(b) yn athro ysgol ac wedi cwblhau'n foddhaol unrhyw gyfnod Sefydlu sy'n ofynnol gan adran 17 y Ddeddf (athrawon ysgol a enillodd Statws Athro Cymwysedig ar ôl 1 Ebrill 2003). Os yw'n ofynnol i ymgeisydd gwblhau'r cyfnod Sefydlu statudol dan y Ddeddf ond nad ydynt wedi gwneud hynny eto, maent yn gymwys i wneud cais am statws cofrestru dros dro yn unig;

(c) heb gael eu gwahardd neu eu hatal rhag ymarfer gan CGA, gan gynnwys drwy orchymyn atal dros dro, yn y categori neu'r categorïau cofrestru y gwneir cais i gofrestru amdano / amdanynt, ac nad ydynt wedi'u gwahardd neu eu hatal gan unrhyw un o'r cyrff cyfatebol yn y Deyrnas Unedig neu Iwerddon;

(d) heb gael eu gwahardd gan yr Ysgrifennydd Gwladol;

(e) heb gael eu gwahardd rhag gweithgarwch a reoleiddir yn ymwneud â phlant (o fewn ystyr adran 3(2) *Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006*);

**1** Mae'r gofynion cymhwyso ar gyfer pob categori cofrestru wedi'u rhestru ar wefan CGA (https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/cofrestru/gwneud-cais-i-gofrestru).

(f) heb eu diarddel rhag gweithio mewn swydd sy'n cyfateb i'r categori cofrestru y gwneir cais i gofrestru amdano mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig;

(g) y tybir eu bod yn addas i gael ei gofrestru gan CGA yn y categori neu'r categorïau cofrestru y gwneir cais i gofrestru amdano / amdanynt.

(2) Pan fydd CGA yn penderfynu gwrthod cais i gofrestru gan nad yw un o baragraffau 5- (1)(a) i (1)(g) wedi'i fodloni, bydd yn ysgrifennu at yr ymgeisydd gan roi rhesymau dros wrthod.

## Addasrwydd i gofrestru

6-(1) Yn unol â Rheol 4(1) a Rheol 5(1)(g), bydd CGA yn asesu addasrwydd ymgeisydd i gofrestru lle maent wedi gwneud cais i gael eu cofrestru, a phan geir atgyfeiriad addasrwydd wedi hynny.

(2) Bydd CGA bob amser yn asesu a ddylid gwneud atgyfeiriad i DBS ai peidio, ar sail y dystiolaeth a'r wybodaeth y mae'n ei chael, a ph'un a oes awgrym o niwed, neu berygl niwed i blant neu oedolion sy'n agored i niwed.

(3) Pan ddylai atgyfeiriad addasrwydd gael ei anfon at gorff arall, caiff ei gyfeirio at y corff arall fel y bo'n briodol, a bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn rhoi gwybod i'r holl bartïon perthnasol.

(4) Gallai'r swyddog a awdurdodir yn briodol gyflwyno atgyfeiriad addasrwydd yn uniongyrchol i asesiad Cam 3 (cyfarfod Pwyllgor Addasrwydd) dan Reol 9 os bydd o'r farn bod hyn yn briodol o ystyried yr wybodaeth a gafwyd am yr ymgeisydd.

### Asesiad Cam 1

7- (1) Pan fydd yr ymgeisydd dan Reol 4(2)(h) neu mewn man arall yn cadarnhau bod mân drosedd neu droseddau yn bodoli, a bod y swyddog a awdurdodir yn briodol o'r farn y gallai'r cyfryw droseddau ddod dan restr o droseddau a gymeradwywyd gan y Cyngor y gallai'r swyddog a awdurdodir yn briodol ymdrin â nhw, gallai wneud argymhelliad i'r Pennaeth Priodoldeb i Ymarfer neu'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio i ganiatáu'r cais i gofrestru ar y sail bod yr ymgeisydd yn addas i fod yn berson cofrestredig yn y categori neu'r categorïau cofrestru perthnasol.

### Asesiad Cam 2

8-(1) Pan fydd:

(a) ymgeisydd yn gwneud datganiad dan Reol 4(2)(h), neu mewn man arall; a phan nad yw Rheol 7(1) yn berthnasol; a/neu

(b) ymgeisydd yn methu datgan gwybodaeth dan Reol 4(2)(h), neu mewn man arall; a/neu

(c) wybodaeth berthnasol arall yn dod i law am ymgeisydd, ac/neu ei gais er neu ei chais hi i gofrestru â CGA,

gallai'r swyddog a awdurdodir yn briodol wneud ymholiadau pellach â chyrff perthnasol eraill i ddilysu'r datganiad a/neu'r wybodaeth a gafwyd, fel y bo'n briodol.

(2) Os, ar ôl ystyried unrhyw dystiolaeth a gafwyd gan gorff perthnasol, bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol o'r farn na fydd y materion yn effeithio ar addasrwydd yr ymgeisydd, gallant wneud argymhelliad i'r Pennaeth Priodoldeb i Ymarfer neu'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio i ganiatáu'r cais i gofrestru.

(3) Os nad yw paragraff 2 yn berthnasol, bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn gwahodd yr ymgeisydd i ddarparu sylwadau ysgrifenedig i ategu eu haddasrwydd i fod yn berson cofrestredig.

(4) Ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gan ymgeisydd o dan baragraff (3) ac unrhyw wybodaeth a gafwyd gan gorff perthnasol arall dan baragraff (1), bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn gwneud argymhelliad i'r Pennaeth Priodoldeb i Ymarfer neu'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio naill ai:

(a) i ganiatáu'r cais i gofrestru ar y sail bod yr ymgeisydd yn addas i fod yn berson cofrestredig yn y categori neu'r categorïau cofrestru perthnasol; neu

(b) i wahodd yr ymgeisydd i ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor Addasrwydd (asesiad Cam 3).

## Asesiad Cam 3 (cyfarfod o'r Pwyllgor Addasrwydd)

*Hysbysu*

9- (1) Pan fydd atgyfeiriad addasrwydd wedi'i gyflwyno i asesiad Cam 3 (cyfarfod o'r Pwyllgor Addasrwydd), bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn anfon llythyr at yr ymgeisydd yn unol â pharagraff (2) drwy ddosbarthiad arbennig i'w gyfeiriad / chyfeiriad cartref diweddaraf sy'n hysbys i CGA, gan roi o leiaf chwe wythnos o rybudd o gyfarfod y Pwyllgor Addasrwydd iddynt, oni bai bod yr ymgeisydd yn fodlon hepgor y cyfnod rhybudd hwnnw.

(2) Bydd y llythyr:

(a) yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am amser a dyddiad y cyfarfod, ei leoliad ac enwau aelodau'r Pwyllgor Addasrwydd;

(b) yn holi a yw'r ymgeisydd yn bwriadu ymddangos yn bersonol a/neu gael eu cynrychioli yn y cyfarfod;

(c) yn holi a yw'r ymgeisydd yn credu y gallai gwrthdaro buddiannau godi ag unrhyw aelod o'r Pwyllgor ac, os felly, y rheswm am hynny;

(d) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ymateb i is-baragraffau (2)(b) a (2)(c) cyn pen pythefnos o'r dyddiad y caiff y llythyr ei anfon;

(e) yn nodi manylion yr atgyfeiriad addasrwydd i'w ystyried gan y Pwyllgor, gan amgáu'r dystiolaeth asesu;

(f) yn gwahodd yr ymgeisydd i wneud unrhyw sylwadau ysgrifenedig ychwanegol ynghylch y manylion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2)(e) a'i addasrwydd ef / haddasrwydd hi cyn pen tair wythnos ar ôl y diwrnod yr anfonir y llythyr. Gallai'r sylwadau hyn gynnwys datganiadau tystion;

(g) yn holi a yw'r ymgeisydd, ar yr adeg maent yn ymateb, wedi'u cyflogi ar hyn o bryd fel ymarferydd addysg a reoleiddir gan CGA ac, os ydynt, enw a chyfeiriad y cyflogwr presennol neu'r asiantaeth gyflenwi;

(h) yn atodi copi o'r Rheolau hyn.

(3) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn anfon copi o'r llythyr, fel yr amodir ym mharagraff (2), at gyflogwr neu asiant presennol yr ymgeisydd, lle bydd yn hysbys.

*Presenoldeb a chynrychiolaeth*

10- (1) Bydd yr ymgeisydd y mae eu haddasrwydd yn cael ei asesu yn cael eu hannog i ymddangos yn bersonol a/neu gael eu cynrychioli mewn cyfarfod gan rywun o'i ddewis ef / dewis hi, gan gynnwys cynrychiolydd cyfreithiol.

(2) Os na fydd yr ymgeisydd yn bresennol nac yn cael eu cynrychioli yn y cyfarfod, bydd y Cadeirydd:

(a) yn gofyn am dystiolaeth gan y swyddog a awdurdodir yn briodol bod llythyr wedi'i anfon at yr ymgeisydd yn unol â Rheol 9; ac

(b) yn holi'r swyddog a awdurdodir yn briodol a oes unrhyw resymau dros absenoldeb yr ymgeisydd wedi cael eu cyfleu i un o swyddogion CGA.

(3) Os nad yw'r Pwyllgor yn fodlon y cydymffurfiwyd â Rheol 9, bydd y Pwyllgor yn gohirio'r cyfarfod.

(4) Os yw'r Pwyllgor yn fodlon y cydymffurfiwyd â Rheol 9 ac nid yw'r ymgeisydd yn bresennol, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig neu lafar a wnaed gan yr ymgeisydd neu ar eu rhan, a chan ystyried unrhyw gyngor gan yr ymgynghorydd cyfreithiol, gall y Pwyllgor fynd ymlaen yn absenoldeb yr ymgeisydd neu ohirio'r cyfarfod.

*Trefn y cyfarfod*

11- (1) Caiff y drefn i'w dilyn yn y cyfarfod ei phenderfynu gan Gadeirydd y Pwyllgor yn unol â Rheol 11- (2) i (14).

(2) Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Addasrwydd eu cynnal yn breifat.

(3) Bydd swyddogion CGA yn sicrhau y caiff yr holl wybodaeth a gafwyd, gan gynnwys unrhyw sylwadau a thystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd, ei hanfon at yr holl bartïon cyn y cyfarfod, ac eithrio lle bydd yr ymgeisydd yn darparu sylwadau a thystiolaeth i CGA y tu allan i'r amserlenni a nodir yn Rheol 9(2)(d) a 9(2)(f). Os na chedwir at amserlenni felly, yna dim ond yn ôl disgresiwn y Pwyllgor y gellir derbyn sylwadau a thystiolaeth y mae'r ymgeisydd yn bwriadu dibynnu arnynt.

(4) Bydd y Cadeirydd yn gofyn i aelodau'r Pwyllgor sy'n bresennol gyflwyno eu hunain, yn cadarnhau enw'r ymgeisydd y mae ei (h)addasrwydd yn cael ei asesu a'i gynrychiolydd / chynrychiolydd, ac yn gofyn am gadarnhad nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng y partïon.

(5) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol, fel y'i cyfarwyddir gan y Cadeirydd, yn darllen manylion yr atgyfeiriad addasrwydd sy'n bwrw amheuaeth ar addasrwydd yr ymgeisydd i fod yn berson cofrestredig. Bydd y Cadeirydd yn holi'r ymgeisydd ynghylch a yw'n cyfaddef ffeithiau'r atgyfeiriad ai peidio.

(6) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn tynnu sylw'r Pwyllgor at dystiolaeth berthnasol yn y papurau.

(7) Gallai'r ymgeisydd, neu ei gynrychiolydd / chynrychiolydd, gyflwyno tystiolaeth berthnasol yn ymwneud â'r ffeithiau, ffactorau lliniarol ac addasrwydd yr ymgeisydd i fod yn berson cofrestredig.

(8) Os bydd yr ymgeisydd yn dewis rhoi tystiolaeth, gallai'r Pwyllgor holi'r ymgeisydd.

(9) Gallai Pwyllgor, mewn amgylchiadau eithriadol a chyn iddo wneud ei benderfyniad terfynol, anfon atgyfeiriad addasrwydd at Bwyllgor Addasrwydd sydd wedi'i gyfansoddi'n wahanol os yw'n ymddangos bod tor-reolau wedi bod yn gysylltiedig â Chyfansoddiad y Pwyllgor neu gyfiawnder naturiol (Atodiad).

(10) Pan fydd Pwyllgor yn anfon atgyfeiriad addasrwydd at Bwyllgor arall, bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn rhoi gwybod i'r partïon fel sy'n briodol.

(11) Ar unrhyw adeg, gallai Pwyllgor Addasrwydd:

(a) ofyn i un o swyddogion CGA wneud ymholiadau pellach;

(b) gofyn am ragor o dystiolaeth / dogfennau gan unrhyw barti perthnasol,

a chaiff copïau o unrhyw dystiolaeth / dogfennau sy'n dod i law eu hanfon at yr ymgeisydd.

(12) Bydd un o swyddogion CGA sy'n gwneud ymholiadau pellach dan baragraff (11) yn sgil cais gan Bwyllgor Addasrwydd yn cyflwyno canlyniadau unrhyw ymchwiliadau o'r fath yn ysgrifenedig i'r Pwyllgor.

(13) Gallai Pwyllgor Addasrwydd ohirio asesiad o addasrwydd ymgeisydd ar unrhyw adeg.

(14) Gallai ymgeisydd wneud cais ysgrifenedig i'r cyfarfod gael ei gynnal (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) yn Gymraeg.

*Penderfyniad*

12- (1) Ar sail y dystiolaeth ger ei fron, bydd y Pwyllgor Addasrwydd yn penderfynu:

(a) caniatáu'r cais i gofrestru ar y sail bod y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn addas i fod yn berson cofrestredig yn y categori neu gategorïau cofrestru perthnasol; neu

(b) wrthod y cais i gofrestru ar y sail nad yw'r Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn addas i fod yn berson cofrestredig yn y categori neu gategorïau cofrestru perthnasol; neu

(c) ohirio'r asesiad er mwyn gwneud ymholiadau pellach dan Reol 11(11) neu gyngor cyfreithiol cyn gwneud penderfyniad terfynol dan y Rheol hon.

(2) Caiff yr ymgeisydd ei hysbysu'n ysgrifenedig o benderfyniad y Pwyllgor Addasrwydd cyn pen pythefnos ar ôl iddo wneud ei benderfyniad.

(3) Dan is-baragraff (1)(a), gwneir trefniadau i alluogi'r ymgeisydd i gofrestru.

(4) Dan is-baragraff (1)(b) a Rheol 5(2), bydd penderfyniad ysgrifenedig y Pwyllgor yn manylu ar sail y penderfyniad ac yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad at yr Uchel Lys cyn pen 28 diwrnod o'r dyddiad pan anfonir y penderfyniad ysgrifenedig atynt.

(5) Dan is-baragraff (1)(b), ni all yr ymgeisydd wneud unrhyw gais arall i gofrestru am gyfnod o 12 mis yn y categori neu'r categorïau y mae'r cofrestriad yn ymwneud ag ef / â nhw, gan ddechrau ar y dyddiad y gwnaeth y Pwyllgor ei benderfyniad.

(6) Pan gaiff asesiad ei ohirio dan is-baragraff (1)(c), gellir ei atgyfeirio i'r un Pwyllgor neu Bwyllgor sydd wedi'i sefydlu o'r newydd.

*Baich a Safon y prawf*

13- (1) Yr ymgeisydd fydd yn ysgwyddo baich y prawf o ran eu haddasrwydd i fod yn berson cofrestredig dan Reolau 6 i 12 a Rheol 15.

(2) Safon y prawf yw'r safon sifil, sef 'yn ôl pwysau tebygolrwydd'.

*Atgyfeiriadau i DBS*

14- (1) Gallai un o swyddogion CGA, o'i (g)wirfodd neu dan gyfarwyddyd Pwyllgor Addasrwydd, ac ar unrhyw adeg yn y broses asesu addasrwydd yn unol â Rheol 6(2), anfon atgyfeiriad addasrwydd i DBS os yw'n awgrymu niwed, neu berygl niwed, i blant neu oedolion sy'n agored i niwed.

(2) Bydd un o swyddogion CGA, o ganlyniad i gam gweithredu a gymerwyd dan baragraff (1), yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am yr atgyfeiriad yn ysgrifenedig.

## Addasrwydd i gofrestru ar ôl i gais gael ei wrthod

15-(1) Pan fydd cais i gofrestru yn cael ei wrthod ar y sail nad oedd yr ymgeisydd yn addas i fod yn berson cofrestredig dan Reol 12(1)(b), yn ddarostyngedig i Reol 12(5), gallent wneud cais i CGA am benderfyniad y gallent fod yn addas yn y categori neu'r categorïau cofrestru roedd y gwrthodiad gwreiddiol yn ymwneud ag ef / â nhw.

(2) Os caiff ymgeisydd eu gwrthod rhag cofrestru mewn un neu fwy o gategorïau dan Reol 12(1)(b), byddant yn gymwys i wneud cais mewn perthynas ag unrhyw gategori neu gategorïau eraill o hyd, hyd yn oed os na fydd cyfnod o 12 mis wedi dod i ben.

(3) Bydd cais dan baragraff (1) yn cael ei wneud yn ysgrifenedig a rhaid iddo nodi ar ba sail y mae'r ymgeisydd yn gofyn am y penderfyniad, a rhaid atodi pob dogfen y dibynnir arni i ategu'r cais. Rhaid i hyn gynnwys tystiolaeth newydd i ddangos newidiadau sylweddol i addasrwydd ymgeisydd.

(4) Pan fydd person yn gwneud cais i CGA am benderfyniad eu bod yn addas i gofrestru ar ôl i gais gael ei wrthod, bydd Pwyllgor Addasrwydd yn cynnal cyfarfod yn unol â'r Rheolau hyn.

(5) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn anfon llythyr at yr ymgeisydd drwy ddosbarthiad arbennig i gyfeiriad diweddaraf yr ymgeisydd sy'n hysbys i CGA, a fydd:

(a) yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am amser a dyddiad y cyfarfod, ei leoliad ac enwau aelodau'r Pwyllgor Addasrwydd; ac

(b) yn atodi copi o'r dystiolaeth a roddwyd, a phenderfyniad y Pwyllgor yn y cyfarfod pan wnaed y penderfyniad y dylid gwrthod cofrestru'r ymgeisydd yn y categori neu gategorïau cofrestru perthnasol ar y sail nad oedd yn fodlon ynghylch eu haddasrwydd i fod yn berson cofrestredig.

(6) Wrth ystyried y cais, bydd y Rheolau hyn yn berthnasol, fel sy'n briodol o ystyried rôl y Pwyllgor.

(7) Bydd y Pwyllgor yn penderfynu a yw'n fodlon bod y person yn addas i'w derbyn i'r Gofrestr ai peidio.

(8) Bydd y Pwyllgor, wrth wneud ei benderfyniad, yn ystyried:

(a) y rhesymau pam y gwrthodwyd y cais gwreiddiol;

(b) y manylion sy'n ategu'r cais;

(c) a yw'r ymgeisydd wedi bod o gymeriad da ers i'w cais gwreiddiol gael ei wrthod; ac

(d) a yw'r ymgeisydd wedi dangos eu parodrwydd a'r gallu yn y dyfodol i gadw at y safonau ymddygiad a ddisgwylir gan berson cofrestredig ac/neu yn gallu dangos lefel gymhwysedd nad yw islaw'r hyn a ddisgwylir gan berson cofrestredig.

(9) Caiff cais a wneir dan baragraff (1) ei benderfynu gan Bwyllgor Addasrwydd arall na fydd yn cynnwys fel aelod ohono unrhyw un a oedd yn aelod o'r Pwyllgor a wrthododd y cais gwreiddiol i gofrestru.

(10) Os yw'r Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn addas i fod yn berson cofrestredig yn y categori neu'r categorïau cofrestru perthnasol, gwneir trefniadau i alluogi'r ymgeisydd i gofrestru.

(11) Os nad yw'r Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn addas i fod yn berson cofrestredig yn y categori neu'r categorïau cofrestru perthnasol a chaiff y cais ei wrthod, ni ellir gwneud cais pellach i gofrestru cyn pen 12 mis calendr ar ôl dyddiad penderfyniad y Pwyllgor Addasrwydd dan y Rheol hon, neu o fewn cyfnod hwy y bydd y Pwyllgor yn penderfynu arno.

## Cynnwys y Gofrestr

16- (1) Cofnoder yn erbyn enw person a gofrestrir ar y Gofrestr y materion a restrir yn Atodlen 2 i *Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015*, fel y'i diwygiwyd.

(2) Gall CGA amodi i gofnodi materion ychwanegol ar y Gofrestr yn ôl yr angen ac y mae o'r farn eu bod yn berthnasol i gofrestriad person.

(3) Pan fydd gorchymyn disgyblu wedi dod i ben, gall CGA amodi i'r gorchymyn sydd wedi dod i ben gael ei gofnodi ar y Gofrestr gan nodi'n glir fod y gorchymyn wedi dod i ben. Bydd yr amod hon am gyfnod o 1 flwyddyn ar ôl i'r gorchymyn ddod i ben a bydd ar gael i ddarpar gyflogwyr ac asiantau a chyflogwyr ac asiantau presennol yn unig.

## Diwygio cofnodion ar y Gofrestr

17- (1) Rhaid i berson cofrestredig roi gwybod i CGA cyn pen cyfnod o fis ar ôl unrhyw newid i unrhyw fanylion sydd wedi'u cofnodi ar y Gofrestr mewn perthynas â nhw.

(2) Bydd CGA, cyn belled ag y bo'n angenrheidiol, yn diwygio'r Gofrestru:

(a) i weithredu'r rhybudd a roddwyd o dan baragraff (1);

(b) i weithredu unrhyw benderfyniad neu orchymyn disgyblu a wneir gan CGA;

(c) i weithredu unrhyw wybodaeth sydd wedi dod i sylw CGA ac sydd, yn ei farn ef, yn galw am ddiwygiad er mwyn cynnal cywirdeb y Gofrestr.

(3) Gallai CGA ofyn am brawf dogfennol o ddiwygiadau neu ychwanegiadau at y Gofrestr, gan gynnwys cymwysterau, newid enwau neu brofedigaethau.

## Adfer cofnodion ar y Gofrestr

18- (1) Pan fydd person cofrestredig, wrth edrych ar y Gofrestr, yn canfod bod cofnod yn ymwneud â nhw wedi'i hepgor, rhaid iddynt roi gwybod i CGA cyn gynted ag y bo'n ymarferol gydag unrhyw dystiolaeth ategol y gall y person cofrestredig ei chael.

(2) Bydd CGA hefyd yn adfer, os yw'n fodlon ar y dystiolaeth, unrhyw gofnod a gaiff ei adrodd i CGA dan baragraff (1), neu a gaiff ei adrodd i CGA drwy unrhyw ddull arall.

(3) Caiff person ar y Gofrestr sy'n destun Gorchymyn Atal (gyda neu heb amodau) gan CGA, eu hadfer i'r Gofrestr ar ddiwedd y cyfnod atal, yn amodol ar y canlynol:

(a) y caiff cais newydd i gofrestru ei gyflwyno'n unol â Rheol 4;

(b) darpariaethau Rheolau 5 a 19(3);

(c) cydymffurfiaeth ag unrhyw amodau a osodwyd gan Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer.

(4) Dim ond yn y categori neu'r categorïau cofrestru y gosodwyd y Gorchymyn Gwahardd ynddo / ynddynt yn unol â Rheol 36 *Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu 2023* CGA y caiff person sy'n destun Gorchymyn Gwahardd a osodwyd gan CGA wneud cais i fod yn gymwys i'w hadfer ar y Gofrestr.

## Ffioedd cofrestru

19- (1) Gallai CGA godi ffioedd blynyddol, gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ("ffi gofrestru") am:

(a) gofrestru person ar y Gofrestr;

(b) cadw cofnodion ar y Gofrestr bob blwyddyn; ac

(c) adfer cofnodion ar y Gofrestr.

(2) Bydd CGA yn cyhoeddi'r ffi gofrestru, pan fydd yn cytuno ar swm newydd dan baragraff (1), ar wefan CGA ac ar ffurf llythyr a fydd ar gael i:

(a) bersonau cofrestredig;

(b) cyflogwyr ac asiantau;

(c) unrhyw un sy'n gofyn amdani.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), gallai CGA wrthod cais i gofrestru nes bydd y ffi gofrestru wedi'i thalu yn unol ag is-baragraff (1)(a).

(4) Gallai CGA amodi ar gyfer eithriadau pan na chaiff ffioedd eu codi.

(5) Bydd y ffi gofrestru, yn unol ag is-baragraff(1)(b) yn daladwy:

(a) i CGA ar neu cyn 1 Ebrill bob blwyddyn; ac

(b) yn unol ag adran 12 y Ddeddf; neu

(c) drwy ddull arall y gallai CGA ei gyfarwyddo.

(6) At ddibenion y ffi gofrestru, mae "blwyddyn" yn dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth y flwyddyn ddilynol.

(7) Pan fydd person cofrestredig yn gyfrifol am dalu eu ffi gofrestru flynyddol eu hunain, ond yn methu talu'r ffi gofrestru at ddibenion cael eu cadw ar y Gofrestr dan is-baragraff (1)(b) ar gyfer y flwyddyn pan fydd y ffi gofrestru'n ddyledus, bydd CGA:

(a) yn anfon hysbysiad at y person cofrestredig yn gofyn i'r ffi gofrestru gael ei thalu; ac

(b) yn atgoffa'r person cofrestredig y bydd methu talu'r ffi gofrestru cyn pen cyfnod amser penodol yn arwain at ddileu cofnod y person cofrestredig hwnnw oddi ar y Gofrestr, dan Reol 20(1)(a); ac

(c) yn rhoi gwybod i'r person cofrestredig y gallai ffi weinyddu fod yn daladwy yn sgil costau talu eu ffi yn hwyr.

Bydd CGA yn defnyddio'r cyfeiriad cartref a / neu'r cyfeiriad e-bost a gedwir ar y Gofrestr yn erbyn enw person at y diben hwn.

## Dileu cofnodion oddi ar y Gofrestr

20- (1) Bydd CGA yn dileu cofnodion o gategori neu gategorïau perthnasol y Gofrestr pan fydd person cofrestredig:

(a) wedi methu talu'r ffi gofrestru dan Reol 19(1)(b) ar ôl i CGA roi hysbysiad priodol o dan Reol 19(7);

(b) wedi methu cwblhau'n foddhaol unrhyw gyfnod sefydlu sy'n ofynnol yn rhinwedd adran 17 y Ddeddf neu wedi methu cwblhau cyfnod sefydlu yn foddhaol cyn pen yr amserlenni a nodir yng nghanllawiau '[Sefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru](https://hwb.gov.wales/dysgu-proffesiynol/dysgu-proffesiynol-gydol-gyrfa/sefydlu/canllawiau-sefydlu-a-dogfennau-cysylltiedig/sefydlu-ar-gyfer-athrawon-newydd-gymhwyso-yng-nghymru)[2]' Llywodraeth Cymru;

(c) wedi methu cwblhau cymhwyster cymeradwy gorfodol cyn pen yr amserlen a nodir yng Ngorchymyn 2023 neu Orchymyn 2024 ar gyfer y categorïau cofrestru hynny y mae cymhwyster gofynnol sylfaenol ar eu cyfer (athro addysg bellach, gweithiwr ieuenctid, gweithiwr cymorth ieuenctid ac ymarferydd dysgu addysg oedolion yn y gymuned);

(d) wedi eu gwahardd neu eu hatal rhag ymarfer gan CGA o un neu fwy o gategorïau cofrestru, gan gynnwys drwy orchymyn atal dros dro, neu wedi'u gwahardd neu eu hatal gan unrhyw un o'r cyrff sy'n cyfateb i CGA yn y Deyrnas Unedig neu Iwerddon;

(e) wedi eu gwahardd gan yr Ysgrifennydd Gwladol;

(f) wedi eu gwahardd rhag ymgymryd â gweithgarwch a reoleiddir yn ymwneud â phlant (o fewn ystyr adran 3(2) *Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006*);

(g) wedi eu diarddel rhag gweithio mewn swydd sy'n cyfateb i'r categori cofrestru y ceisir cofrestru amdano mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig; ac

(h) yn ddarostyngedig i baragraff (2), yn gwneud cais ysgrifenedig i CGA i gael ei dadgofrestru ar y sail:

  (i) nad ydynt yn cael eu cyflogi fel ymarferydd addysg mwyach; ac

  (ii) nad ydynt yn bwriadu chwilio am waith fel ymarferydd addysg.

(i) pan gaiff CGA ei hysbysu yn ysgrifenedig o farwolaeth person cofrestredig. Pan gaiff yr hysbysiad hwn ei roi gan berthynas agosaf y person cofrestredig, rhaid i hyn gynnwys copi o'r dystysgrif marwolaeth.

(2) Ni fydd is-baragraff (1)(a) yn berthnasol:

---

**2** Canllawiau 'Sefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru' Llywodraeth Cymru (https://hwb.gov.wales/dysgu-proffesiynol/dysgu-proffesiynol-gydol-gyrfa/sefydlu/canllawiau-sefydlu-a-dogfennau-cysylltiedig/sefydlu-ar-gyfer-athrawon-newydd-gymhwyso-yng-nghymru).

(a) pan fydd CGA yn cael atgyfeiriad sy’n cynnwys honiad o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu gollfarn o drosedd berthnasol; neu

(b) pan fydd y person cofrestredig yn destun archwiliad gan yr Ysgrifennydd Gwladol (yr Adran Addysg) neu DBS.

(3) Pan fydd CGA yn dileu cofnod yn ymwneud â pherson cofrestredig, bydd CGA:

(a) yn rhoi gwybod iddynt (ac eithrio pan fydd is-baragraff (1)(h) yn berthnasol); ac

(b) yn gallu rhoi gwybod i gyflogwr neu asiant presennol y person,

am y rhesymau dros ddileu’r cofnod.

(4) Ni fydd unrhyw beth yn y Rheol hon yn atal CGA rhag dileu cofnod ar y Gofrestr a wnaed drwy gamgymeriad neu gywiro unrhyw fân wallau a allai ymddangos ar y Gofrestr.

## Yr hawl i fynd at y Gofrestr

21- (1) Gallai CGA sicrhau bod enwau’r personau cofrestredig ar y Gofrestr ar gael yn y modd y gallai CGA benderfynu arno.

(2) Bydd CGA yn darparu copi o’r wybodaeth sydd wedi’i chofnodi ar y Gofrestr yn erbyn enw person cofrestredig i’w person hwnnw ar gais;

(3) Bydd CGA, os gofynnir iddo gan gyflogwr neu asiant neu ddarpar gyflogwr neu asiant person cofrestredig, yn rhoi’r wybodaeth a nodir yn Rheoliad 8 i Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015, fel y’i diwygiwyd, i’r sefydliad hwnnw.

(4) Gallai CGA, ar ôl cael cais gan aelod o’r cyhoedd, roi gwybod iddynt a yw person yn berson cofrestredig ai peidio.

(5) Dan Reoliad 8 o *Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015* fel y’i diwygiwyd, gall CGA ddarparu gwybodaeth sydd wedi’i chofnodi ar y Gofrestr i Lywodraeth Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol (yr Adran Addysg) gan gynnwys trwy’r Asiantaeth Rheoleiddio Addysgu, DBS a’r Cynghorau Addysgu Cyffredinol yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.

## Rhestr o bersonau a gofrestrwyd yn flaenorol

22- (1) Bydd CGA yn cadw manylion yr ymarferwyr addysg sydd wedi’u dileu oddi ar y Gofrestr.

# Atodiad – Cyfansoddiad a chyfarfodydd

## Aelodaeth pwyllgorau

(1) Mae’r pwyntiau canlynol yn ymwneud â Phwyllgor Addasrwydd.

(2) Bydd Pwyllgor yn cynnwys o leiaf tri pherson. Y cworwm ar gyfer cyfarfod o’r Pwyllgor fydd tri, y mae’n rhaid iddynt gynnwys:

(a) un neu fwy aelod lleyg;

(b) un neu fwy o bersonau sydd wedi’u cofrestru mewn o leiaf un o’r categorïau cofrestru.

(3) Wrth sefydlu Pwyllgor, bydd CGA yn ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth, ei Gynllun Iaith Gymraeg statudol ac unrhyw safonau sy’n benodol gymwys i CGA yn unol â *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*.

(4) Pan fydd Pwyllgor yn asesu addasrwydd ymgeisydd a phan fydd aelod:

(a) yn anfodlon; neu

(b) yn methu bod yn aelod mwyach,

ac nid oes cworwm mwyach, caiff y penderfyniad ei ohirio a chaiff Pwyllgor newydd ei benodi i ystyried y mater.

(5) Pan fydd unrhyw aelod o Bwyllgor, wrth ystyried atgyfeiriad, o’r farn y gallai arsylwr teg a gwybodus dybio bod ganddynt wrthdaro buddiannau, bydd yr aelod hwnnw’n gwneud datganiad yn unol â hynny. Gallai hyn, ar ôl cael cyngor cyfreithiol, arwain at ddiarddel yr aelod rhag eistedd mewn perthynas â’r asesiad addasrwydd hwnnw.

(6) Yn unol â pharagraff (5), pan fydd aelod o’r Pwyllgor yn perthyn i’r un undeb neu gymdeithas broffesiynol â’r ymgeisydd, nid fydd hyn ynddo’i hun yn gyfystyr â gwrthdaro buddiannau at ddibenion y Rheol hon.

## Cadeiryddion

(1) Bydd gan bob Pwyllgor Addasrwydd Gadeirydd.

(2) Yn absenoldeb y Cadeirydd penodedig dan baragraff (1), bydd y Pwyllgor yn penodi un o’i aelodau eraill i weithredu fel y Cadeirydd.

## Cyfarfodydd

(1) Bydd Pwyllgor yn cael ei gynnull ar unrhyw adeg ac mewn lleoliad y mae swyddog a awdurdodir yn briodol yn ei (h)ystyried yn briodol drwy anfon hysbysiadau priodol at yr aelodau sydd wedi'u dethol ar gyfer y Pwyllgor hwnnw.

Fel arfer, bydd Pwyllgor Addasrwydd yn cael ei gynnull cyn pen chwe wythnos ar ôl i'r swyddog a awdurdodir yn briodol anfon atgyfeiriad ato.

(2) Gall swyddogion CGA:

(a) fod yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor;

(b) ond ni chânt gyfrannu at benderfyniad Pwyllgor.

## Pleidleisio a gwneud penderfyniadau

(1) Bydd unrhyw benderfyniad gan Bwyllgor yn cael ei wneud trwy bleidlais gan aelodau'r Pwyllgor hwnnw.

(2) Bydd unrhyw gwestiwn sy'n cael ei roi i bleidlais Pwyllgor yn cael ei roi ar ffurf cynnig gan Gadeirydd y Pwyllgor.

(3) Ni chaiff unrhyw aelod sy'n bresennol yng nghyfarfod Pwyllgor ymatal rhag pleidleisio pan fydd cwestiwn yn cael ei roi i bleidlais.

(4) Pan fydd cwestiwn yn rhoi ei roi i bleidlais, bydd y Cadeirydd:

(a) yn galw ar yr aelodau i bleidleisio o blaid neu yn erbyn y cynnig; ac

(b) yn datgan bod y cynnig wedi'i dderbyn neu beidio, fel y bo'n briodol.

(5) Pan fydd nifer y pleidleisiau'n gyfartal ar gyfer unrhyw gynnig, bernir bod y cynnig wedi'i benderfynu o blaid yr ymgeisydd.

## Ymgynghorydd cyfreithiol neu ymgynghorydd proffesiynol arall

(1) Bydd CGA yn trefnu bod unrhyw ymgynghorydd cyfreithiol ac/neu ymgynghorydd proffesiynol arall sy'n ofynnol ganddo ar gael i Bwyllgor Addasrwydd sydd wedi'i sefydlu dan y Rheolau hyn i weithredu fel ymgynghorydd yn ystod cyfarfod.

(2) Pan fydd angen cyngor cyfreithiol a/neu gyngor proffesiynol arall ar Bwyllgor, a roddir iddo gan yr ymgynghorydd cyfreithiol ac/neu ymgynghorydd proffesiynol arall sydd ar gael gan CGA, bydd yr ymgynghorydd cyfreithiol ac/neu'r ymgynghorydd proffesiynol arall penodedig yn gwneud datganiad ysgrifenedig yn ymwneud â natur y cyngor a geisiwyd ac a gafodd y Pwyllgor.

(3) Ni fydd yr ymgynghorydd cyfreithiol ac/neu'r ymgynghorydd proffesiynol arall yn berson sydd wedi annerch y Pwyllgor yn flaenorol mewn mater y mae'r Pwyllgor yn ceisio cyngor yn ei gylch mewn unrhyw swyddogaeth, heblaw fel ymgynghorydd cyfreithiol neu ymgynghorydd proffesiynol arall.